

Cynllun Busnes GwE

2020 – 2023



CYNNWYS

1. **Cyd-destun Rhanbarthol**
2. **Cyflwyniad**
3. **Cynllun Busnes GwE:**
 - **Proses Cynllunio Busnes**
 - **Amcanion Strategol**
 - **Meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gwelliant**
4. **Cyllid**
5. **Llywodraethu: Monitro ac arfarnu**
6. **Cofrestr Risg**
7. **Dogfennau ategol ychwanegol**

1: CYD-DESTUN RHANBARTHOL

Mae GwE yn darparu gwasanaethau gwella ysgol i ranbarth o chwe awdurdod lleol: Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

Yn 2019, roedd 82,088 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn 22% o holl ddisgyblion Cymru. Mae 410 ysgol a gynhelir yn y rhanbarth, sy'n 27.6% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (CYBLD, 2019).

Roedd canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn 16.6%, sy'n is na'r ffigwr cenedlaethol o 18.3%. Y lefel hon yw'r isaf o'r pedwar consortiwm rhanbarthol (CYBLD, 2019).

Yn y rhanbarth, mae 31% o'r rheiny sy'n dair oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19% (Cyfrifiad 2011, ONS).

O 30 Medi 2019, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2.3% o'r boblogaeth yn y rhanbarth, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 5.4%.

O 31 Mawrth 2019, mae 1,295 o blant yn y rhanbarth yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, sy'n 18.9% o blant mewn gofal yng Nghymru.

Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan a chroesawu her oddi mewn i Gymru, a thu hwnt, tra sicrhau bod yr hyn a ddatblygir yn addas i'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrando'n barhaus ar lais pob rhanddeiliad, yn enwedig llais athrawon ac arweinwyr ysgolion ym mhob sector.

Mae gan GwE gynllun tair-blynedd clir sy'n amlinellu sut y bydd, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella'r dysgu a'r addysgu, codi'r dyhead i gael effaith ar safonau a chyflymu ymhellach gyflymdra'r gwelliant yn ysgolion uwchradd y rhanbarth.


2: CYFLWYNIAD

Mae'r cynllun busnes hwn yn amlinellu blaenoriaethau pendant rhwng 2020 a 2023. Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio sefyll ar ei phen ei hun. Caiff ei gweld o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i gyflawni newid yn unol â disgwyliadau chytûn.



Mae GWE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella a heriau'r daith ddiwygio. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau adolygu cymheiriaid effeithiol, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GWE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation'.

Beth sydd angen ar gyfer System sy'n Hunan Wella?



Yn seiliedig ar David Hargreaves: 'Self Improving Systems – Towards Maturity'

Adolygiad gan gymheiriaid

Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn uchelgeisiol ac arloesol iawn ac yn gofyn i randdeiliaid, ar bob lefel, gydweithio a chydweithredu i godi safonau, lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad, a darparu system addysg sy'n destun balchder a hyder cenedlaethol.

Mae'n diffinio system hunan wella ble mae gan arweinwyr ac athrawon ysgolion y sgiliau y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu yn barhaus a gwella eu harfer fel bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial ac yn barod am fywyd mewn byd sy'n gynyddol gymhleth.

Yn ddiweddar, mae ysgolion wedi gwella o safbwynt rhannu eu harferion gorau er budd pob dysgwr. Yn ein system hunan wella yng Nghymru, mae angen i weithwyr proffesiynol a sefydliadau fod yn ymwybodol o'u cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a gyda'r wybodaeth hon gofyn am gymorth i wella'u hunain a rhoi cymorth i eraill wella.

Dyhead a disgwyliad Llywodraeth Cymru yw bod pob rhan o'r gyfundrefn addysg yn dod yn rhan o'r model hwn, fel bod cryfderau yn cael eu lledaenu ar draws y gyfundrefn, a meysydd i'w gwella yn cael sylw drwy waith ymgysylltu â chymheiriaid a chefnogaeth. Wrth gyflawni hyn, byddwn yn sicrhau y gall ein gweithwyr addysg ffynnu mewn amgylchedd cefnogol a chydweithredol i godi safonau a gofalu y gall pob dysgwr ifanc gyflawni ei botensial.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru am system werthuso, gwella ac atebolrwydd yn un sy'n deg, yn gydynol, yn gymesur, yn dryloyw ac yn seiliedig ar werthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae disgwyliad clir i ysgolion ddatblygu nid yn unig y capasiti a'r sgiliau i herio eu hunain yn effeithiol, ond hefyd y gallu i weithio ar y cyd ac yn systematig mewn model gwella ysgolion yn seiliedig ar adolygu proffesiynol gan gymheiriaid.

Cred GwE a'r chwe Awdurdod Lleol yn gryf y dylai adolygu gan gymheiriaid fod yn yrrwr allweddol wrth i ysgolion wireddu'r daith ddiwygio genedlaethol a datblygu i fod yn system hunan wella, a hynny mewn ffordd effeithiol. Ein gweledigaeth yw cael ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant.

Ar ddechrau 2019, aeth GwE a'r chwe awdurdod lleol ati i weithredu camau cyntaf proses ymgynghori gyfansawdd â Phenaethiaid ar rôl adolygu cymheiriaid o fewn y daith ddiwygio genedlaethol.

Roedd nifer o themâu cyffredin a negeseuon allweddol yn treiddio trwy ymatebion rhanddeiliaid yn y sector cynradd, uwchradd ac arbennig. Yn benodol:

- dylid mabwysiadu dull gweithredu adolygu gan gymheiriaid yn rhanbarthol er mwyn gyrru cynnydd ymhellach tuag at system hunan wella;
- ni ddylid datblygu'r model adolygu gan gymheiriaid hwn i gyflwyno *system o 'ffug arolygiadau'*;
- dylai rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er sicrhau ein bod yn creu'r amodau priodol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid sy'n effeithiol;
- dylem gytuno ar set ranbarthol o egwyddorion ac iaith dechnegol ar gyfer ein model, a'u mabwysiadu;
- dylem gytuno ar ffiniau'r fframwaith, fydd yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion weithredu ystod o fodelau;
- dylai ysgolion gael rhyddid a hyblygrwydd i ddethol eu cymheiriaid;
- dylai'r model gynnwys ymgysylltu â chymheiriaid ar bob lefel mewn ysgol;

- dylai'r model hybu ymddiriedaeth, gonestrwydd, tryloywder a ffydd broffesiynol;
- dylai ymgysylltu fod yn broses gefnogol a chynaliadwy, yn hytrach nag un digwyddiad beichus, un-tro;
- dylai'r model gefnogi symud diwylliannol tuag at berchenogaeth ar y cyd.

Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau adolygu effeithiol gan gymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD *'What Makes a School a Learning Organisation'*, ac arddel yr egwyddorion a'r dull gweithredu rhanbarthol a ffafrir gan benaethiaid yn yr ymgynghoriad y cyfeiriwyd ato.

Credwn yn gryf, felly, y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid fod yn sail i gylch trylwyr o welliant parhaus, a chynnwys:

- **Hunan-adolygiad:** dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid ddechrau efo pa mor dda mae'r ysgol yn adnabod ei hun, a chael ei harwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai prosesau hunan arfarnu'r ysgol adael i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau gwella. Dylai hefyd nodi agweddau ar eu taith wella ble mae angen cymorth gan gymheiriaid i gefnogi gwelliant.
- **Adolygu gan gymheiriaid:** mae ffocws cyffredin i'r adolygiadau cymheiriaid mwyaf effeithiol. Rhaid mai pwrpas y cydweithio yw gwella deilliannau a dylai unrhyw ffocws cyffredin fod yn seiliedig ar dystiolaeth gref o'r hyn sydd angen i wella, a pha ddeilliannau fyddai'n elwa'r ysgol fwyaf. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tim, neu driawd, yn gweithio orau ble gallant driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid ydynt yno i farnu, ond yn hytrach chwilio am dystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu efo'r ysgol. Mae'n hanfodol nad yw'r broses adolygu gan gymheiriaid yn dod yn *system o 'ffug arolygiadau'*. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir, ble mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn allweddol ac yn greiddiol i'r broses. Dylai'r adolygu gan gymheiriaid hefyd roi cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol, a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.
- **Cymorth Ysgol i Ysgol:** os yw'r adolygu gan gymheiriaid am fod yn gyfrwng ar gyfer gwelliant parhaus mewn systemau ysgolion, yna rhaid iddo fynd ymhellach na'r adolygiad eu hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gymorth clwstwr. Ble'r staff sy'n berchen ar y deilliannau, bydd yr effaith hirdymor a'r effaith gynaliadwy, yn fwy. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu cynhwysedd a gwella gwydnwch o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y bydd hunan arfarniadau ysgol yn cael eu dilysu'n allanol. Fel hyn, sicrhair bod yr hunan arfarnu yn dryw i gryfderau a blaenoriaethau gwella y sefydliad, a bod lefel briodol o gymorth yn cael ei darparu yn unol â hynny. Dylai unrhyw fodel adolygu gan gymheiriaid gefnogi'r broses hon. Credwn yn gryf y dylai'r broses ddilysu gael ei gwneud 'efo' ysgolion, a bod gwaith ymgysylltu â chymheiriaid yn rhan annatod o'r broses honno. Mae'n orfodol felly nad yw proses ddilysu yn cael ei gweld fel 'ffug arolygiad' sy'n troi'n 'ddigwyddiad' o'r 'brig i lawr', nac yn rhywbeth sy'n cael ei gwneud i'r ysgol.

Mae'r dull gweithredu hwn yn unol ag argymhellion Graham Donaldson yn ei adolygiad annibynnol o Estyn 'Arolygiaeth Dysgu' (2018). Bydd y trydydd cyfnod, sef y cyfnod olaf, o ran gweithredu'r argymhellion yn gweld Estyn yn symud tuag at 'fodel hunanarfarnu wedi'i ddilysu, sy'n gyson â'r dyhead polisi i symud tuag at system hunanwella. Wrth i ysgolion aeddfedu yn eu gallu i ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol â hunanarfarnu, dylai mai rôl unigolion a chyrrff allanol yw darparu safbwyntiau sy'n procio ac ymestyn barnau mewnol. Gallai ysgolion sydd â gallu profedig i gynnal hunanarfarniad a gweithredu arno symud tuag at fodel arolygu sy'n dilysu ar sail 'ymreolaeth haeddiannol'. Byddai Estyn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyfryw ysgolion ar gylch cytûn er mwyn adrodd yn gyhoeddus ar ei hyder yn y broses hunanarfarnu a chyfanrwydd adroddiadau gan ysgolion. Byddai'r hyder hwnnw yn cael ei fynegi trwy Estyn yn dilysu (neu beidio) prosesau a chanfyddiadau'r ysgol, a fyddai'n cael ei ddisgrifio trwy naratif byr, o bosibl, yn mynegi i ba raddau y mae gan arolygwyr hyder yn y broses. Er y gallai hyn ymddangos yn radical o ran dulliau arolygu diweddar yn y Deyrnas Unedig, mae gan ddull tebyg elfennau sy'n gyffredin ag agweddau ar arfer arolygu yn rhyngwladol. Byddai symud tuag at fodel atebolrwydd o hunanarfarnu wedi'i ddilysu yn adlewyrchu'r dyhead ehangach i greu system hunanwella wedi'i seilio ar ddysgu proffesiynol a sefydliadol.'


Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell 'Dylai arfarnu allanol ddarparu safbwynt gwahanol a mwy gwrthrychol ar waith ysgolion a'i effaith ar ddysgu. Gall arfarnu allanol ddod o adolygwyr cymheiriaid sy'n gydweithwyr proffesiynol yn gweithredu'n gyfeillion beirniadol i ysgol neu glwstwr o ysgolion'. Nodir hefyd 'Rhesymeg y polisi hunanwella a dysgu yng Nghymru yw datblygu dulliau hunanarfarnu cydweithrediadol sy'n cynnwys adolygwyr cymheiriaid hyfforddedig, staff consortia ac arolygwyr'.

Felly, wrth symud ymlaen, ac yn unol â chyfeiriad genedlaethol y daith, mae'n rhaid gwreiddio a gweithredu, yn llawn, proses adolygu cymheiriaid effeithiol er mwyn cyflawni Cynllun Busnes GwE 2020-23.

Felly, wrth symud ymlaen, mae'n rhaid gwreiddio a gweithredu, yn llawn, proses adolygu cymheiriaid effeithiol er mwyn cyflawni Cynllun Busnes GwE 2020-23. Anelwn felly at gryfhau a datblygu ar yr arferion presennol er mwyn gwreiddio'n llawn proses adolygu gan gymheiriaid sy'n drylwyr a chadarn, i fod yn rhan ganolog o wella ysgol wrth symud tuag at system hunan wella, tra hefyd yn cynnal yr ysgolion hynny sy'n achosi pryder.


Rôl yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella. 'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.



Ein gwledigaeth am 2022


Bydd gan ein Hymgyngorwyr Cefnogi Gwelliant ystod eang o sgiliau i gyflawni eu gwaith.



- Tîm o unigolion safon uchel sydd wedi cael hyfforddiant ar hyfforddi, mentora a hwyluso.
- Cefnogi ysgolion wrth iddynt gydweithio ar eu taith tuag at welliant.
- Cyfle i arbenigo mewn maes neilltuoel gan gynnwys gwaith efo ysgolion y mae arnynt angen cymorth dwys ar unwaith.
- Tîm all gydweithio ar draws cyfnodau efo unigolion sy'n gallu gweithio yn y ddau gyfnod.
- Gallu tynnu ar system arweinyddiaeth sydd ag unigolion, ysgolion a chlystyrau sydd wedi'u hadnabod i gefnogi ac ychwanegu cynhwysedd gan gynnwys ysgolion Arloesi.
- Unigolion a thimau (gan gynnwys y rheiny o ysgolion) all arwain ar feysydd neilltuoel - Cynllunio'r Cwricwlwm, Y Cyfnod Sylfaen, Arweinyddiaeth, y Gymraeg ac ati - creu cronfa o adnoddau i YCG, clystyrau ac ysgolion eu defnyddio.
- Cyfrannu at ddatblygu Llwybr Gyrfa a chynllunio dilyniant.
- Hyrwyddo ymchwil gweithredol ar bob lefel, gan gynnwys cyfleoedd ag iddynt achrediad.
- Treulio llai o amser ar dasgau biwrocraidd a sicrhau bod cydymffurfio.
- Rôl sy'n newid pwyslais sy'n ymateb i awdurdodau lleol, clystyrau ac ysgolion e.e. cynnig hyfforddiant wedi'i gynllunio'n ofalus, dyddiau HMS, adnabod agweddau ar wella ysgol
- Gweithlu sy'n edrych tuag allan sydd â chysylltiadau byd-eang, ac ymwybyddiaeth glir o anghenion y genhedlaeth nesaf.

Cefnogi'r Daith Ddiwygio

Creu diwylliant ble y gall gwella ysgolion ar y cyd ffynnu



Ar y cyd â rhanddeiliaid, mae GwE wedi datblygu strategaeth gefnogol a chynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn llwyddo i feithrin cynhwysedd ar draws y rhanbarth i wynebu heriau y diwygio ehangach. Mae'r dull gweithredu integredig wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydweithredol ar draws

clystyrau o ysgolion. Er mwyn cefnogi ysgolion ymhellach, mae GwE wedi datblygu'r cysyniad o greu cerrig milltir tymhorol drwy system rheoli gwybodaeth G6. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i bob ysgol fyfyrir ac, wrth drafod gyda YCG, caiff gweithgareddau a'u heffaith, ynghyd â'r camau nesaf eu rhannu.

Fel sefydliad sy'n dysgu, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cael gweledigaeth gytûn ac, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, rydym wedi llunio'r weledigaeth hon ar gyfer 2022:

- Diwylliant system sy'n aeddfed ac wedi datblygu
- Mae gan ysgolion weledigaeth gytûn a rennir
- Mae gan ysgolion strategaeth dysgu ac addysgu effeithiol
- Gweithlu hyderus a medrus o ran:
 - Cynllunio'r cwricwlwm
 - Arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Adolygu gan gymheiriaid sy'n onest a phendant
- Cydweithio dibynadwy rhwng ysgolion.
- Datblygu set sgiliau y tîm rhanbarthol

Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid haen ganol, mae GwE wedi bod yn weithredol o ran cyfrannu at greu naratif sy'n manylu ar ddisgwyliadau'r system rhwng nawr a 2022. Y pwrpas yw gosod disgwyliadau cyson i ysgolion ar gyfer proses cynllunio'r cwricwlwm, a pharatoi i'w weithredu o 2022 ymlaen. Felly, y nod yw cynorthwyo ysgolion i gynllunio eu dull gweithredu a'u gweithgareddau dilyniannu. Yn ei dro, bydd hyn yn llywio'r gefnogaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau haen ganol.

Rhaglen Datblygu Cwricwlwm i Gymru

Bydd Dysgu Proffesiynol yn ganolog i sicrhau bod gan holl staff ysgolion yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau i gyflawni'r diwygiadau addysg sydd yn mynd rhagddynt yng Nghymru. O ystyried y disgwyliadau uchod a gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, adnabuwyd fframwaith pendant ar gyfer themâu dysgu proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion.

Yn GwE, credwn ym mhwystrwydd parhau i gadw'r diwygio yn glir o safbwynt yr ysgol, a datblygu negeseuon sy'n glir. Rydym yn cydnabod her amser ac adnoddau, a byddwn yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod dysgu proffesiynol wrth law i bawb, gan gynnwys yr egwyddorion:

- defnyddio rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes er mwyn lleihau'r gofyn i athrawon ddod o'r ysgol
- ceisio datblygu adnoddau electronig i gefnogi sgysiau mewn ysgolion
- ceisio cynnwys pob agwedd ar y diwygio wrth ddatblygu'r cwricwlwm


Wrth wraidd gwaith GwE, mae'r ymrwymiad i'r gwaith Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, fel y nodir gan yr OECD:

'Today's schools must equip students with the knowledge and skills they'll need to succeed in an uncertain, constantly changing tomorrow. But many schools look much the same today as they

did a generation ago, and too many teachers are not developing the pedagogies and practices required to meet the diverse needs of 21st-century learners.

In response, a growing body of scholars, educators and policy makers is making the case that schools should be reconceptualised as “learning organisations” that can react more quickly to changing external environments, embrace innovations in internal organisation, and ultimately improve student outcomes.’

Mae'r egwyddorion wedi'u corffori ym mhob math o ddysgu proffesiynol ac ar draws GwE, a gwnaethpwyd y gwaith ar ddwy lefel:



- datblygu GwE i fod yn sefydliad sy'n dysgu i gynnwys datblygiad cynaliadwy
- cefnogi ysgolion i ddysgu mwy i ddatblygu'n barhaus i fod yn sefydliadau sy'n dysgu

Mae pedair thema sy'n rhedeg drwy gydol y gwaith hwn, ac sy'n greiddiol i ddatblygu sefydliad sy'n dysgu, sef Ymddiriedaeth, Amser, Technoleg a Meddwl Gyda'n Gilydd. Bu'r rhain yn sylfaenol ar gyfer datblygu ffordd GwE o fynd ati i ddatblygu partneriaethau cryf gan fod ymddiriedaeth yn sylfaen i'r berthynas sydd ei hangen, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn i sefydliadau sy'n dysgu ffynnu.

Bydd y rhaglen dysgu proffesiynol i Benaethiaid ac Uwch Arweinwyr yn dechrau ym mis Chwefror 2020, ar sail y themâu a ganlyn:

- Arwain newid
- Datblygu gweledigaeth gytûn
- Creu amser a lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol
- Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm/dylunio cwricwlwm
- Addysgeg arweiniol

3: CYNLLUN BUSNES GwE

PROSES CYNLLUNIO BUSNES

Mae'r Cynllun Busnes rhanbarthol yn amlinellu'r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.



Mae'r blaenoriaethau a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel y bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

EIN HAMCANION STRATEGOL

Mae ein hamcanion strategol yn cyd-fynd ag *'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'* (Llywodraeth Cymru), ac yn arddel y blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol presennol.

Dyma ein hamcanion strategol:

1: Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel

- Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'n hollbwysig cyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad.

2: Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau

- Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.

3: Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles

- Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.

4: Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunan wella

- Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu grymus a gweithdrefnau targedu, tracio ac ymyrraeth cadarn ar waith. Sicrhau bod gan arweinwyr ac athrawon y sgiliau, y gallu a'r ymrwymiad i ddysgu yn barhaus ac i wella eu harfer fel bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

5: Cwricwlwm Trawsnewidiol

- Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n ei alluogi i fod yn ddysgwr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd ei botensial.

6: Busnes

- Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL

Dyma ein blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer gwelliant:

Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau manwl, mesurau cynnydd lleol a cherrig milltir eglur sy'n gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio.

1: DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL	
Blaenoriaethau gwella:	Mesurau Cynnydd:
1.1 Cefnogi ysgolion uwchradd mewn categori statudol, a'r rheiny sy'n achosi pryder, i wella perfformiad	Lleihau nifer yr ysgolion uwchradd mewn categori statudol, a'r rheiny sy'n achosi pryder.
1.2 Cymraeg 2050 – darparu strategaeth ranbarthol i gyflawni 'Miliwn o Siaradwyr'.	Cysoni'r cyflenwad a'r galw am staff mewn meysydd arbenigol gan gynnwys cyfrwng Cymraeg.
1.3 Cefnogi CaBan i ddatblygu darpariaeth AGA o safon uchel.	Gweithio gyda CaBan ac ysgolion i sicrhau dilyniant o safon mewn dysgu proffesiynol o AGA hyd at y proffesiwn addysgu.

2: ARWEINWYR SY'N YSBRYDOLI AC SY'N CYDWEITHIO I GODI SAFONAU	
Blaenoriaethau gwella:	Mesurau Cynnydd:
2.1 Gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel	Adnabod ystod ehangach o gyfleoedd i ddatblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol. Gwellu nifer yr ymgeiswyr safonol am swyddi arweinyddiaeth.
2.2 Cefnogi ysgolion uwchradd i wella perfformiad arweinyddiaeth ganol	Dyfnhau'r cydweithio rhwng ysgolion a'u partneriaid.

2.3	Datblygu model ymgysylltu â chymheiriaid efo ysgolion i sicrhau bod hunan arfarnu a chynllunio gwelliant yn gadarn ar bob lefel	
-----	---	--

3: YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL SYDD WEDI YMRWYMO I SICRHAU RHAGORIAETH, TEGWCH A LLES		
Blaenoriaethau gwella:	Mesurau Cynnydd:	
3.1	Datblygu ymhellach y broses o weithredu Model Fframwaith y Grant Datblygu Disgyblion Rhanbarthol (GDD).	Parhau i weithredu strategaethau rhanbarthol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus.
3.2	Datblygu ymhellach y strategaeth PMG.	Monitro perfformiad unigolion a gwahanol grwpiau o ddysgwyr, gan ddefnyddio'r data sydd ar gael efo ffocws neilltuol ar sicrhau cynnydd priodol yn ôl eu gwaelodlin.
3.3	Gweithio efo ALL ac ysgolion i weld sut orau i baratoi ar gyfer trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol.	Parhau i weithio gyda Bwrdd Strategol ADY y rhanbarth i sicrhau eglurder rolau wrth gefnogi ysgolion i fod yn barod am y Trawsnewid ADY.

4: TREFNIADAU ASESU, ARFARNU AC ATEBOLRWYDD CADARN I ATEGU SYSTEM HUNANWELLA		
Blaenoriaethau gwella:	Mesurau Cynnydd:	
Cefnogi ysgolion i wella perfformiad yn y sector uwchradd:	Tystiolaeth o wella'r gyfundrefn gyfan drwy fesurau cytûn.	
4.1	Datblygu systemau tracio ac asesu	Parhau i weithio gyda Phrifysgol Bangor i ddatblygu ymhellach gwaith ymchwil i addysg yng Nghymru, er mwyn cynnal unrhyw gydweithio yn well.
4.2	Datblygu atebolrwydd a systemau rheoli	
4.3	Datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio gwelliant cadarn	
		Parhau i fod yn agored i gyngor a chraffu allanol ar draws y gyfundrefn gyfan.
		Adnabod ffyrdd o fesur cynnydd mewn lles dysgwyr.
		Datblygu a defnyddio arolygon dysgwyr, gweithlu a rhieni yn effeithiol.
		Meincnodi effeithiol yng Nghymru a gyda'n partneriaid rhyngwladol

5: CWRICWLWM TRAWSNEWIDIOL	
Blaenoriaethau gwella:	Mesurau Cynnydd:
5.1 Cefnogi ysgolion a chlystyrau wrth iddynt baratoi i gynnig Cwricwlwm Trawsnewidiol drwy raglen o ddysgu proffesiynol ar y themâu hyn: • Arwain newid • Datblygu gweledigaeth gytûn • Creu amser a lle ar gyfer Dysgu Proffesiynol • Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm/dylunio cwricwlwm • Addysgeg arweiniol	Defnyddio gwaith ymchwil addysgeg dibynadwy a chydweithio effeithiol i gefnogi gwaith datblygu cwricwlwm o safon fyd-eang a fydd yn helpu i godi safonau. Cyflwyno cwricwlwm trawsnewidiol, sy'n corffori'r pedwar diben ac yn sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar safonau uwch mewn llythrennedd a rhifedd, a bod pobl ifanc yn fwy digidol a dwyieithog gymwys. Hyder y proffesiwn i gyflwyno'r cwricwlwm.

6: BUSNES	
Blaenoriaethau gwella:	Mesurau Cynnydd:
6.1 Cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu	Strwythur staffio mewn gwell sefyllfa i ddarparu'r gwasanaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol. Llywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi sylw i'r heriau y bydd angen i'r gwasanaeth roi sylw iddynt, a darparu gwerth am arian.

4: CYLLID

Fel pawb arall, rydym yn byw mewn hinsawdd ariannol anodd iawn a rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd. Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth Prif Weithredwyr y Rhanbarth, ac am gyngor a chefnogaeth Aelodau Etholedig y Cyd-bwyllgor wrth wneud y penderfyniadau gorau i gefnogi ein dysgwyr a'n hysgolion.

Ein cyllideb graidd ar gyfer 2020-21 yw £3,692,973. Mae'r gyllideb graidd bellach oddeutu 25% yn llai na'r cyfnod cyn sefydlu GwE. Bydd y Grant Gwella Addysg yn £29,589,444 ar gyfer eleni (yn cynnwys cyllid cyfatebol). Mae hyn yn doriad o bron i £8miliwn ar gyllideb 2015. Ar yr un pryd, bu cynnydd o 14% mewn costau staffio o ganlyniad i gyflwyno isafswm cyflog, cyflog byw a chyfraniadau pensiwn. Wrth reoli'r heriau ariannol hyn, rydym wedi parhau i gynyddu ein cyfraddau dirprwyo i ysgolion. Mae GwE yn cadw oddeutu 3% o'r GGA i ddarparu cefnogaeth i ysgolion.


			Grant a chyfateb	Grant a chyfateb
		Grant a chyfateb	Toriad (£)	Toriad (%)
11 Grant Unigol	14/15	£37,021,296		
GGA	15/16	£33,549,764	-£3,471,532	-9.38%
GGA	16/17	£31,902,703	-£1,647,061	-4.91%
GGA	17/18	£31,672,444	-£230,259	-0.72%
GGA	18/19	£29,124,247	-£2,548,197	-8.05%
GGA	19/20	£29,064,551	-£59,696	-0.20%
GGA	20/21	£29,589,444	+£524,893	+1.81%
		Cronnus	-£7,431,852	-20.1%

Mae cynnydd o tua £560,000 yn 2020/21 sy'n benodol ar gyfer cymarebau'r cyfnod sylfaen. O ganlyniad, mae gostyngiad gwirioneddol o £35,107 yng ngweddill yr EIG.

Gofynion monitro

Mae GwE yn gweinyddu'r grantiau addysg rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gofynion monitro a roddir ar y grantiau ar hyn o bryd yn sylweddol ac yn defnyddio'r hyn sy'n cyfateb i bedair swydd llawn amser.

5: LLYWODRAETHU: MONITRO AC ARFARNU



Mae fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE.

Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

Adroddir ar gynnydd yn chwarterol sy'n rhoi adroddiad cynnydd ar y gweithredu, y mesurau cynnydd/targedau a'r proffil gwariant.

6: COFRESTR RISG

Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

Adnabuwyd amryw o risgiau all fod yn rhwystrau rhag gweithredu blaenoriaethau'r Cynllun Busnes yn llwyddiannus. Dyma nhw:

- Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir.
- Mae ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LIC yn rhwystro cynllunio strategol tymor hir. Oedi sylweddol wrth gadarnhau lefelau cyllid sy'n effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol.
- Nid yw sgôp sylweddol y diwygio addysg sydd ar y gweill gan gynnwys atebolrwydd, dysgu proffesiynol, digidol, yr Iaith Gymraeg, datblygu'r cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth ac ADY, wedi'i wreiddio na'i weithredu yn llawn. Mae ymwybyddiaeth ysgolion o'r pedwar diben o fewn Cwricwlwm i Gymru a datblygiad y Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm yn gyfyngedig, ac yn creu ansicrwydd mewn ysgolion. Mae newidiadau yn y cwricwlwm a chymwysterau yn achosi ansicrwydd mewn ysgolion.
- Anawsterau recriwtio penaethiaid ar draws y rhanbarth/Recriwtio arweinyddiaeth o ansawdd ar bob lefel
- Mae toriadau i gyllidebau ysgolion yn effeithio ar allu ysgolion i barhau i godi safonau.
- Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i wreiddio'n llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol.
- Nid yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol/Perfformiad disgyblion PYD.
- Amrywiad ym mherfformiad yr awdurdodau lleol unigol a'r risg o gael eu rhoi mewn categori statudol.
- Rhoi ysgolion uwchradd mewn categori statudol Estyn.

7: DOGFENNAU ATEGOL YCHWANEGOL

- Cynllun Busnes manwl 2020-2021
- Cofrestr Risg GwE
- Adroddiad Blynnyddol GwE
- Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol
- Cynlluniau Strategol Addysg Awdurdodau Lleol
- Cerrig Milltir GwE
- Adroddiad Steve Munby
- Adnoddau a Chyfraniadau GwE